



NATIONAL PARKS WALES
Britain's breathing spaces

Rhywogaethau Estron Ymledol

Papur Brifffio I'r Pwyllgor Amgylchedd a
Chynaliadwyedd,
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru

Mae'r rhestr o rywogaethau estron ymledol yng Nghymru, ar y tir ac ar ddŵr yn hir iawn ac â chanddo potensial i fod yn broblemus. Nid ydym yn gwybod mewn gwirionedd pa effeithiau y bydd rhywogaethau ymledol o'r fath yn ei gael ar ein tirweddau gwarchoddedig oherwydd nid ydym wedi sefydlu eto beth yn union yw maint y broblem ar hyn o bryd nac ychwaith wrth symud ymlaen tuag at y dyfodol.

Y minc Americanaidd, y wiwer lwyd, y cimwch signal Americanaidd, cregyn gleision sebra, y berdys llofrudd, y cranc crafangau melfed, briweg y gors Awstralia, Rhododendron, Cotoneaster, y can clymog Siapaneidd, y ffromlys chwarennog a'r efwr enfawr ar hyn o bryd yw'r rhywogaethau ymledol sy'n wybyddus ac yn hysbys i ni sy'n cael eu cydnabod fel goresgynwyr ymledol sylweddol, o fewn a thu hwnt i Barciau Cenedlaethol Cymru.

papur briffo briefing paper



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast, and Snowdonia National Parks. Working in Partnership.

Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales

126 Stryd Bute / 126 Bute Street
Caerdydd / Cardiff, CF10 5LE

Ffôn / Tel 029 2049 9966
Ffacs / Fax 029 2049 9580

Ebost / Email nationalparkswales@anpa.gov.uk

1. Digonolrwydd y data a'r wybodaeth sydd ar gael ac effeithiau rhywogaethau estron ymledol ar hyd a lled Cymru ar hyn o bryd.

Rydym yn nodi bod coladu data diweddar, sy'n fanwl gywir yn anodd ac mae hynny'n wir oherwydd maint yr ardaloedd o dan sylw, a hynny yn sgil dosbarthiad sy'n newid yn gyflym ynghyd â diffyg gweithlu. Efallai nad yw data, lle caiff ei gasglu mewn fformat a gytunwyd arno, ac nid oes unrhyw un, ar wahân i ychydig o unigolion dethol yn mynd ati i chwilio am bresenoldeb rhywogaethau ymledol. Y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ffodus o gael astudiaethau sylfaenol ar gyfer *Rhododendron Ponticum* yn ei feddiant ac mae'r rheiny wedi cael eu datblygu / wedi cael eu hadeiladu arnynt, ac mae hynny wedi cynnwys patrwm gweithredu aml-asiantaeth.

Mae dod o hyd i ddata diweddar yn weddol hawdd, yn ddarostyngedig bod yr holl bartïon yn defnyddio'r un fethodoleg / fframiau amser a'u bod yn barod i gydweithio a rhannu data. Rydym yn credu bod data cywir yn allweddol ar gyfer sefydlu a thanategu sail rhaglenni a phrosiectau ar gyfer eu difa / dileu.

Mae data digonol yn bwysig. Er enghraifft - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri & *Rhododendron*. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APC) haen System Wybodaeth Ddaearyddol ymledol (ar wahân i *rododendron*) sy'n seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan ganolfannau cofnodion lleol, ond mae hwn yn anghyflawn ac mae'n mynd yn llai cywir, ac yn llai digonol oherwydd oedran y casgliad data gwreiddiol.

Mae gan Adnoddau Naturiol Cymru (ANC) ddata ar gyfer parthau torlannol, safleoedd o goetir a safleoedd dynodedig a allai fod yn setiau data gwerthfawr ar gyfer ehangu gwybodaeth am rywogaethau ymledol ac fe allant fod yn gymorth wrth sefydlu'r darlun ehangach.

Gall ein hinsawdd sy'n newid chwarae rôl yn y lledaeniad o rywogaethau ymledol, ond ar hyn o bryd mae'r dystiolaeth yn aneglur. Mae nifer y rhywogaethau estron yn Ewrop wedi cynyddu 76% yn ystod y 30 mlynedd¹ diwethaf, er y gall newid yn yr hinsawdd fod yn ffactor arwyddocaol mae yna ffactorau eraill, er enghraifft, mwy o fasnach byd-eang neu ddwysáu systemau bugeilliol penodol, sydd efallai yn darparu cyfleoedd i rywogaethau ymledol penodol i sefydlu eu hunain a lledaenu. Mae angen ymchwil pellach.

Effeithiau: Mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cyflogi staff sy'n rhoi eu barn ar yr effeithiau andwyol a ddaw yn sgil rhywogaethau ymledol. Fodd bynnag, nid oes llawer o ddata economaidd ynghylch effeithiau lleol na rhanbarthol y plaon. Ar raddfa ar draws Ewrop gyfan, mae'r costau yn enfawr ac yn gyson. Mae

¹ SCIENCE, May 2010, www.sciencemag.org

astudiaeth 2008 ² ar effeithiau rhywogaethau ymledol i'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn dod i fyny gyda ffigwr o € 12.5 biliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar y gost o ddileu / gwaredu / rheoli, difrod i seilwaith, amaethyddiaeth a choedwigaeth; ac atal, ymchwil a monitro.

2. Y camau a gymerwyd hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau perthnasol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mater Data; y mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn defnyddio gwirfoddolwyr ac arsylwadau a wnaed gan staff (Ecolegwyr, Wardeiniaid ac ati) ond mae'r data a gasglwyd mewn rhai sefyllfaoedd yn ddigyswllt ac yn digwydd ar hap (ad-hoc). Gan ddibynnu ar natur ymosodol y rhywogaeth gall data ddyddio (fynd yn amherthnasol) yn gyflym, yn wir, mewn rhai achosion o fewn blwyddyn neu ddwy.

O fewn Parc Cenedlaethol Eryri y mae dull traws asiantaethol strategol ³ wedi cael ei mabwysiadu er mwyn mynd i'r afael â Rhododendron ymledol, a hynny gyda pheth llwyddiant. Y mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn un o'r manau gyda'r enw mwyaf drwg yn nyffryn Nant Gwynant. Mae gwerth y bartneriaeth bresennol wedi bod yn

£704k dros gyfnod o 5 mlynedd, er bod swm ychwanegol o £225k wedi methu a chael ei wireddu o ganlyniad i oedi gydag arian cyllido. Er gwaethaf y llwyddiant cyfyngedig a gawsom yn Eryri yn erbyn un rhywogaeth ymledol rydym yn credu y gall achos gael ei wneud i un Asiantaeth arweiniol gael y cyfrifoldeb - a chael ei ariannu - er mwyn mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol a mabwysiadu patrwm gweithredu neu ymagwedd fwy gydlynol. Mae'r costau yn cael eu gosod yn erbyn y costau economaidd i fioamrywiaeth / amaethyddiaeth a choedwigaeth, i enwi tri sy'n deillio o rywogaethau ymledol. Mae profiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrth fynd i'r afael â Rhododendron wedi llywio'r broses o ddatblygu dull ar gyfer rheoli rhywogaethau ymledol mewn manau eraill, mae hyn - i bob pwrpas - wedi gweithredu fel peilot.

Byddai ymagwedd asiantaeth arweiniol gydlynol, yn ein tyb ni, yn ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau, byddai'n osgoi dyblygu; yn casglu a lledaenu gwybodaeth, technegau a chyngor arbenigol. Byddai'r Asiantaeth arweiniol mewn sefyllfa i gomisiynu ac ariannu ymchwil; a byddai'n atebol, i'r cyhoedd a llunwyr polisi am ei gyflawni.

Gan adlewyrchu'r ymagwedd a fabwysiadwyd yn Eryri, mae grŵp traws-Sir Benfro (Rhywogaethau Ymledol Amrodorol) wedi cael ei ddechrau o dan nawdd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. Mae gan y grŵp, sy'n cynnwys ystod eang o

² Kettunen, Genovesi, Gollasch, Pagad, Starfinger, ten Brink & Shine. 2008. Assessment of the impacts of IAS in Europe and the EU (Final module report for the European Commission). IEEP

³Rhododendron in Snowdonia and a strategy for its control

http://www.eryri-npa.gov.uk/_data/assets/pdf_file/0020/68600/Rhododendron-Strategy-Final.pdf

Rhododendron yn Eryri a strategaeth i'w reoli

http://www.eryri-npa.gov.uk/_data/assets/pdf_file/0003/68601/Strategaeth-Rhododendron-Terfynol.pdf

randdeiliaid a grwpiau â diddordeb gylch gwaith sy'n cynnwys cydlynu ac ymchwilio amgylcheddau daearol (gellid dadlau bod hyn yn fwy hanfodol) a morol. Mae'r patrwm gweithredu hwn neu'r ymagwedd gyd drefnedig yn cael ei ategu gan waith presennol ac arfaethedig ar y ddaear a fydd yn cael eu blaenoriaethu a'u cydlynu yn well fel mae gwaith y grŵp yn datblygu. Mae'r ymdrech bresennol yn cynnwys y gwaith rheoli Rhododendron a Jac y Neidiwr gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghyd ag ymrwymiad tymor hir tuag at yr agwedd hon o reoli tir.

Mae canolbwyntio, fel y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) wedi ei wneud, ar y broblem Rhododendron wedi golygu bod materion ymledol eraill wedi cael eu "rhoi i'r neilltu" fel petae a hynny hyd nes y gellir ail gyfeirio capasiti ac adnoddau. Er enghraifft, byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn hoffi gallu canolbwyntio ar y Canclwm, oherwydd mae'n credu bod y gwyfyn y Canclwm (neu'r gwiddonyn) yn ddull cost effeithiol o drin y broblem. Mae'n anffodus na roddir rhyw fath o flaenoriaeth i ardaloedd gwarchoddedig pan ddaw hi i fater o flaenoriaethu rhaglenni rheoli oherwydd gall gwneud hynny ganiatáu i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) i arfer patrymau gweithredu traws rywogaethol ar y cyd.

3. Sut y gall gweithrediadau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron ymledol yng Nghymru gael eu gwella;

Byddai'r nod cyffredin a rennir o rannu gwybodaeth am rywogaethau ymledol rhwng Asiantaethau yn ddechrau cadarnhaol a ni fyddai'n feichus ar adnoddau a byddai'n dechrau symud pawb i ffwrdd oddi wrth y sefyllfa gyfredol fel ac y mae hi (sef y status quo).

Byddai ymdeimlad o frys o du'r holl asiantaethau gan gynnwys Llywodraeth Cymru a DEFRA ar adeg gynharach yn y broses pan fo pla yn digwydd yn help. Gall cyflawni camau cynnar atal rhywogaeth ymledol rhag ymledu yn syth bin, ac yn ogystal â hynny byddai'n lleihau'r baich economaidd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â diffyg gweithredu. Tra bo pla yn fach, gall pob "unigolyn" gael eu dileu. Fodd bynnag, os ydych yn gadael llonydd i bla hyd nes ei fod wedi ymledu neu'n drwchus yna mae'r gost o gael gwared arno ar gyfartaledd 40 gwaith yn ddrutach.⁴

Mae angen i asiantaethau ddod at ei gilydd ar wedd gynnar er mwyn cytuno ar y patrwm gweithredu priodol ecosystemau o ran maint yr uned rheoli er mwyn mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol. Gall ymagwedd fwy integredig arwain tuag at sefyllfa lle mae'r broblem yn sgil rhywogaethau ymledol yn cael ei rheoli dros ardal, yn hytrach nac ar sail rhywogaeth wrth rywogaeth. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol lle mae sawl rhywogaeth yn ymosod ar yr ardal, a byddai gwneud hynny yn helpu i osod blaenoriaethau rheoli a chostau.

⁴ Harris, S.; Timmins, S.M. 2009: Estimating the benefit of early control of all newly naturalised plants. *Science for Conservation* 292. Department of Conservation, Wellington. 25 p.

Gallai Gweithrediadau gael eu hychwanegu at elfennau a dargedir yn Glastir. Yr oedd yn rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) ymgyrchu yn hir ac yn galed i sicrhau bod rheoli Rhododendron yn cael ei gynnwys yn y Pecyn Elfen wedi ei dargedu, ond fe fydd yn hanfodol bod rhannu data Llywodraeth Cymru ar safleoedd sy'n cael eu trin er mwyn sicrhau bod haenau System Gwybodaeth Ddaearyddol (a adwaenir yn gyffredin fel GIS) a setiau data yn cael eu cynnal. Er bod y dull hwn yn darparu adnoddau sydd eu hangen yn fawr iawn, bydd angen dull gydlynedig oherwydd fe all fod bylchau wrth ei fabwysiadu (hynny ydi ffermydd nad ydynt wedi eu cynnwys yn Glastir neu nad yw'r opsiynau o ran rhywogaethau ymledol wedi cael eu gweithredu), fe all bylchau sydd heb gael unrhyw sylw olygu ei bod yn bosib i rywogaethau ymledol gael eu hailgyflwyno i ardal. Fe ellid dadlau wrth gwrs y dylai rheolaeth ymledol, os yw yn berthnasol, fod yn rhan orfodol yn Glastir.

Buasai camau yn erbyn rhywogaethau ymledol yn gallu cael eu hymgorffori lle mae problemau eraill yn bodoli. Er enghraifft, mae'r Afon Wysg yn bla o'r ffromlys chwarennog, ac mae'r fan hon yn cael ei phoeni gan bwysau pori gormodol a sathru ar hyd glannau'r afon sy'n erydu ac ar hyd clogwyni yr afon. Yr ateb yn y fan hon yw adfer y stribedi torlannol a'r prysgwydd. Nid oes, fodd bynnag, ddim ymateb perffaith, mae'n rhaid i'r datrysiad hwn gael ei gydbwysu yn erbyn polisi Llywodraeth Cymru i wella mynediad at ddŵr (y gronfa SPLASH) ac wedi'r cwbl traed dynol yw un o'r pethau pennaf sy'n symud hadau y ffromlys chwarennog o un lle i'r llall.

Efallai mai Adnoddau Naturiol Cymru fydd yr Asiantaeth genedlaethol fwyaf effeithiol i gydlynu cynllun gweithredu yn erbyn rhywogaethau ymledol. Mae Adnoddau Naturiol Cymru mewn sefyllfa dda i gydlynu'r gwaith o gasglu, mapio a dosbarthu data ar raddfa y tu hwnt i ffiniau ac arbenigedd y Parc Cenedlaethol. Am yr un rhesymau y mae Adnoddau Naturiol Cymru hefyd mewn sefyllfa dda i arwain ar yr ymdrechion i gytuno ar faint yr uned rheoli ecosystem ar gyfer gwahanol rywogaethau ymledol yn ogystal. Fe all Adnoddau Naturiol Cymru alluogi partneriaid yn lleol i gyflawni yn erbyn rhywogaethau ymledol.

Gallai'r sector breifat gael ei ymrestru hefyd. Mae busnesau yn aml yn eistedd ochr yn ochr â'r coridorau sy'n cynnal rhywogaethau estron ymledol, a gall polisiâu sydd a wnelo cyfrifoldeb cymdeithasol / amgylcheddol corfforaethol ddarparu rheolwyr rhywogaethau ymledol gyda throsoledd i gyd-drafod, a sicrhau cyllid.

Yn olaf, mae angen i'r ymchwil am rywogaethau ymledol gael ei gynyddu yn sylweddol er mwyn llywio ein patrwm gweithredu yn ddigonol ynghyd â thargedu ein hadnoddau. Dylai ymchwil ein galluogi i ganfod lle y bydd yr enillion mwyaf yn gallu cael eu cyflawni, er enghraifft, drwy gyfrwng patrymau gweithredu daearol integredig neu batrymau gweithredu dyfrol integredig?

4. Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnwys cyflwyno

Cyfarwyddeb a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau i gyflawni camau cydlynol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Y mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r datblygiad, oherwydd fe all hyn orfodi y rhai sydd wedi methu â rhoi blaenoriaeth ac arwyddocâd haeddiannol i'r mater hwn. Nid yw'r mater yn un poblogaidd ac ychydig neu ddim cyllid sy'n cael ei ddenu ganddo. Er y gall fod yn hawdd cynnal y gyfarwyddeb mewn egwyddor, bydd cyflawni hyn yn ymarferol yn fethiant oni bai fod arian digonol i ddilyn.

Mae angen i gylchoedd cyllid Ewropeaidd, fel arfer dros y tymor byr i ganolig, werthfawrogi yn well ac adlewyrchu anghenion ariannu tymor hir (20 + o flynyddoedd) strategaethau rhywogaethau ymledol. Er ei fod yn fecanwaith tuag at fynd i'r afael â'r broblem mae cyrff ariannu Ewropeaidd - lle mae angen ceisiadau ariannu lluosog dros gyfnod y strategaeth - yn anfwriadol yn gallu cynyddu'r gost o ddelio â rhywogaeth ymledol.